# Cynllunio a rheoli casglu silod

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynllunio a rheoli casglu silod fel rhan o gynhyrchu cregynbysgod. (Diffinnir "Silod" fel cregynbysgod ifanc a had cregynbysgod).

Mae'r safon hon yn cynnwys y gallu i gynllunio a rheoli'r gweithgareddau canlynol:

- paratoi casglwyr silod
- lleoli casglwyr silod
- monitro casglu silod
- adfer casglwyr silod
- trafod a storio silod

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn cynllunio ac yn rheoli casglu silod.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau amgylchedd gwaith iach, diogel a chadarn
2.
cynllunio gweithgareddau casglu silod i gyflawni'r targedau cynhyrchu a gynlluniwyd
3. cynllunio'r adnoddau sydd yn ofynnol i gefnogi'r gweithgareddau casglu silod gofynnol
4. dewis safleoedd casglu ar gyfer casglu rhywogaethau targed a rhoi cyfrif am amodau amgylcheddol hysbys
5. datblygu gweithdrefnau i reoli casglu ac adfer silod cregynbysgod hyfyw
6. datblygu gweithdrefnau ar gyfer cludo a storio silod
7. sicrhau bod gweithdrefnau yn cynnal lles silod
8. datblygu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â ffactorau hysbys a allai effeithio ar roi'r gweithgareddau casglu silod ar waith
9. datblygu gweithdrefnau ar gyfer rheoli hylendid a bioddiogelwch
10. rheoli'r gwaith o weithredu gweithgareddau casglu silod er mwyn cyflawni gofynion cynhyrchu penodedig ar gyfer silod
11. gwerthuso llwyddiant gweithgareddau casglu silod
12. rheoli cofnodion casglu silod yn unol â ***'r*** gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau'r safle

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol ar gyfer iechyd, diogelwch a diogeledd sydd yn gysylltiedig â chasglu silod cregynbysgod
2.
cyfnodau cylch bywyd y cregynbysgod sydd yn cael eu ffermio
3. yr adegau o'r flwyddyn pan mae cregynbysgod, rhywogaethau lleuog ac ysglyfaethus yn silio
4. yr amodau amgylcheddol sydd yn ofynnol i gefnogi silio a chasglu silod yn llwyddiannus
5. dulliau gwahanol a ddefnyddir i gasglu silod
6. dewis safle, yn cynnwys amodau cyfreithiol ac amgylcheddol perthnasol
7. y ffordd y gall rhywogaethau lleuog ac ysglyfaethus effeithio ar gasglu silod cregynbysgod
8. y gofynion adnoddau ar gyfer casglu silod yn ddiogel ac yn effeithiol
9. ffactorau sydd yn gallu effeithio ar gasglu silod
10. y gofynion lles silod cregynbysgod yn ystod gweithgareddau casglu a storio
11. dulliau a ddefnyddir i werthuso llwyddiant gweithgareddau casglu silod
12. y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau safle ar gyfer rheoli cofnodion casglu silod

## Cwmpas/Ystod

Mae'r safon hon yn gofyn eich bod yn cynllunio ac yn rheoli'r **gweithgareddau** canlynol:

1. paratoi casglwyr silod
2. lleoli casglwyr silod
3. monitro casglu silod
4. adfer casglwyr silod
5. trafod a storio silod

## Geirfa

**safleoedd casglu** – ardaloedd lle mae casglwyr silod wedi cael eu sefydlu

**ffactorau** – **e.e. newidiadau mewn amodau amgylcheddol, gweithredoedd ysglyfaethwyr, amrywiadau mewn cwymp silod

**cynhyrchiant sydd wedi ei gynllunio** – cynhyrchiant a ragwelir yn seilieig ar brofion a data hanesyddol

**adnoddau** – cyfarpar, personél, amser, deunyddiau

**silod cregynbysgod hyfyw** – silod sydd yn debygol o oroesi o fewn amgylchedd fferm bysgod

Cynllunio a rheoli casglu silod

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 29 Ebr 2015 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 29 Ebr 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAqu31 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermio Pysgod |
| **Cyfres/Set** | Dyframaethu, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | cregynbysgod; silod; |